

CYNGOR CYMDEITHAS LLANFROTHEN

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Nos Lun 7 Tachwedd 2016.

PRESENNOL : Y Cynghorwyr Glyn Griffiths (Cadeirydd), Dafydd Watts (Is- Gadeirydd)

RV Roberts, Ifor Jones, Nia Povey, Nyfain Wyn.

YMDDIHEURIADAU : Llio Griffiths , R P Jones.

COFNODION : Cyflwynwyd a Chadarnhawyd Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 5 Medi 2016.

GWRYCHOEDD A CHOED AR Y Ffordd O LANFROTHEN I RHYD: Cyflwynwyd llythyr Gyngor Gwynedd yn hysbysu eu bod bellach wedi derbyn gwybodaeth pwy yw perchnogion y tiroedd ac y bydden yn eu rhybuddio i'w torri. Os fydd anfon cymerir camau gorfodaeth yn eu herbyn. Penderfynwyd gofyn iddynt pa gamau yr oeddynt wedi eu cymryd yn y mater.

GWAREDU ANGHYFREITHLON: Cyflwynwyd llythyr Cyngor Gwynedd yn hysbysu fod defnyddio camerâu cudd yn opsiwn yr oeddynt wedi eu ddefnyddio mewn rhai achosion. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

LLWYBR TROED O LANFROTHEN I BENRHYNDEUDRAETH: Cyflwynwyd llythyr Cyngor Gwynedd tri opsiwn ar gyfer darparu llwybr rhwng y ddau bentref ond na fyddai'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol yn y tymor byr i gyfarfod â'r gost. PENDERFYNWYD - a) bod y Cyngor yn ffafrio opsiwn 2. b) gwneud cais am iddynt ddarparu palmant o'r fynedfa I Tŷ Mawr I waelod y rhiw gan mai dyma i'w y rhan beryclaf.

YMDDIRIEDOLAETH CLOUGH WILLIAMS ELLIS : Cyflwynwyd copi o adroddiad yr Ymddiriedolwr i'r tenantiaid. Penderfynwyd nodi ei gynnwys.

AROLWG ETHOLAETHAU SENEDDOL : Cyflwynwyd manylion o adroddiad Comisiwn Ffiniau Cymru. Penderfynwyd eu hysbysu fod yr etholaeth a argymhellir ar gyfer yr ardal hon yn llawer rhy eang ei maint.

MARIAN ROBERTS : Cyflwynwyd llythyr ganddi yn nodi ei phryder fod y bws o Borthmadog yn stopio ar y gyffordd mewn safle nad oedd yn ddiogel. Penderfynwyd mai'r bwriad oedd i'r bws stopio gyferbyn a'r safle aros yr ochr arall i'r ffordd. Yn anffodus nid oedd y Cyngor wedi codi arwydd yn y fan honno. Mae'r Cyngor Bro wedi gwneud cais iddynt osod un yn awr.

Penderfynwyd ei hysbysebu o hyn. 'Roedd y Cyngor hefyd wedi gwneud cais iddynt am loches bws ar y safle. JAPANESE KNOTWEED - 'Roedd y Cyngor eisoes wedi cwyno wrth

Gyngor Gwynedd am y mater ond nid oedd cyfrifoldeb arnynt hwy dim ond ar lwybrau cyhoeddus.

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD : Cyflwynwyd llythyr cartrefi Cymunedol Gwynedd yn datgan parodrwydd i drafod cais y Cyngor am adnoddau ychwanegol ar y llecyn agored ar Ystâd Garreg Frech. Yr oeddynt wedi datgan parodrwydd i geisio prynu 13 Garreg Frech ac i adeiladu pedwar tŷ fforddiadwy yng nghefn Garreg Frech os byddai Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn barod i ymestyn y ffin ar gyfer adeiladu tai. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

ADRODDIAD YR ARCHWILIWR ALLANOL: Cyflwynwyd adroddiad yr Archwilwyr Allanol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2016. Penderfynwyd derbyn a chadarnhau'r adroddiad.

BILIAU I'W TALU : Penderfynwyd talu'r biliau canlynol :-

Scottish Power £33.29

Norman Kerr £370 a £370

Dŵr Cymru £60.92

Idris Jones £2550.00

Marian Roberts £120.00

CEISIADAU CYNLLUNIO : a)Gwelliannau I Creua Llanfrothen – dim gwrthwynebiad.

b) Gwifrau Trydan Minffordd I Lanfrothen – dim gwrthwynebiad. c) Cais dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 I benderfynu ar amodau at ôl adolygiad cyfredol mewn perthynas â Chwarel Minffordd – penderfynwyd peidio cyflwyno unrhyw sylwadau.

ARCHWILIO GWARIANT Y CYNGOR YN YSTOD Y FLWYDDYN : Cyflwynwyd adroddiad y Clarc ar sefyllfa ariannol y Cyngor yn cynnwys y taliadau a'r derbyniadau - penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

CYFARFOD GYDAG YMDDIRIEDOLWYR CLOUGH WILLIAMS ELLIS : Adroddwyd fod y Cynghorwyr Glyn Griffiths a Dafydd Watts wedi mynychu'r cyfarfod yng Nghastell Deudraeth. Cafwyd adroddiad gan y ddau o'r prif faterion a drafodwyd. Cytunwyd fod cyfarfodydd o'r fath yn fuddiol i gadw cysylltiad rhwng y Cyngor a'r Ymddiriedolwyr. Cynhelir cyfarfod pellach rhyngddynt i drafod materion yn ymwneud â'r Cynlluniau Trydan Ddŵr - penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

YR ARCHWILWYR ALLANOL : mynegwyd pryder nad oedd yn bosib trafod materion ar y ffôn yn y Gymraeg gyda'r Archwilwyr Allanol - penderfynwyd dwyn y mater i sylw'r Aelod o'r Cynulliad a'r Aelod Seneddol.

SWYDD CLARC Y CYNGOR : Penderfynwyd rhoddi hysbyseb am y swydd yn Yr Wylan ar. Cambrian News. Bydd manylion y swydd ar gael gan Glarc y Cyngor a'r ceisiadau i'w danfon I Gadeirydd y Cyngor.